# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 1 MAWRTH 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*


# YSGOL RAMADEG DINBYCH



# I BLE'R AETH Y BLYNYDDOEDD



Llun:Jean Gwynn

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Mawrth 16eg - Ar Werth Ebrill 3ydd, 2018**

# Gair gan y Golygydd

Rhyw feddwl yr oeddwn y dydd o'r blaen am y math o dref 'rydym yn byw ynddi, a sylwi bod sawl tref arall rhywbeth yn debyg i hon , - wedi gweld dyddiau gwell, medde chi,- wel efallai yn wir. Ond na, rhyw nodweddion oedd gennyf mewn golwg. Mae tebygrwydd, onid oes, rhwng Dinbych a Threffynnon er enghraifft, a Llangefni a Llanrwst hefyd o bosib – trefi marchnad o ran natur a hefyd drefi a fu'n ganolfannau pwysig iawn mewn oesau a fu gydag adeiladau mawr yn brawf o'r pwysigrwydd hwn. Mae Treffynnon yn eithriadol o ran maint ei hadeiladau tref a'r gwagter hael sydd ar ganol y dref a 'dydym ni yma ddim yn bell ar ei hol hi. Mae gennym adeiladau hynafol –rhai hynafol iawn, yn cyfeirio 'nol ganrifoedd at y canol oesoedd pan oedd Dinbych yn brif dref y Sir ag yn lle gwir bwysig. 'Roedd yma blastai bychain cyfagos oedd hefyd yn dweud yr un hanes.

Dyna Ddinbych felly yn medru datblygu, yn y cyfnod hwnnw , yn ganolfan weinyddol gref a Threffynnon hithau hefyd yn ganolfan weinyddol i'r diwydiannau cyfagos. Ond, fel yr awgrymais , mae'r ddwy dref erbyn hyn wedi gweld dyddiau gwell. Pam, tybed? Clywais gryn gwyno am gyflwr Treffynnon ryw ychydig yn ol, ag wrth gwrs fe gollodd Dinbych afael ar ei nerth weinyddol pan ffurfiwyd y Cynghorau Sir ganrif a mwy yn ol, a dyna pryd y daeth Rhuthun i'r amlwg ag wedi parhau felly hyd heddiw.

Daw hynny a thon arall o feddyliau drosof, -sef pam y mae deuoliaeth fel hyn yn digwydd:- Dinbych/ Rhuthun, Caerdydd/ Abertawe, Bangor/ Caernarfon, y Rhyl/ Prestatyn ag efallai Caer / Wrecsam, gydag un dref fel petai yn teyrnasu dros y llall ag yn derbyn, meddir, fwy o nawdd a sylw na'r llall. Pwnc dadleuol, a gallwn fynd ymlaen i gynnwys y cwestiwn pigog, -yng Nghymru – am sylw cyfartal rhwng y De a'r Gogledd,-ond gwell osgoi hwnnw efallai. Ond ynglyn a'r ddwy dref, ystyriwch hyn. Yn Rhuthun y mae tua hanner dwsin o siopau dillad merched ag yn cynnwys dillad da. 'Does yna ddim siopau dillad merched yn Ninbych heddiw heblaw am un siop rad sydd newydd ddod i waelod y dref. Rhaid i ferched fodloni ar siopau elusen yma. A beth amdanom ni ddynion? Dim siopau dillad eto, felly siopau elusen amdani. Ar y llaw arall fe gyfrifodd rhywun chwech o siopau sy'n gwerthu papur toiled yma yn Ninbych. Ai dyma'r farchnad rydd yn gweithredu tybed? Duw a'n gwaredo.

*Ceredig Gwynn*

GOFALAETH BRO DINBYCH
**GWYL FLODAU'R PASG**
**AC ARDDANGOSFA GWAITH CREFFT**
**YN Y CAPEL MAWR, DINBYCH**
Stondin Masnach Deg / Paned a Cacen
29 MAWRTH - 2 EBRILL 2018
AMSERAU AGOR
Dydd Iau 29 Mawrth 10.00 y.b. - 3.00 y.p.
Dydd Gwener 30 Mawrth - Dydd Llun 2 Ebrill
2.00 y.p.- 5.00 y.p.
Gwneir casgliad dros gyfnod yr Wyl tuag at elusen lleol

**siop siocled**
**01745 814864 dinbych**
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864 neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

## Dyddiadur

**Cyfarfod Blynyddol y Bigwn** - Nos Fercher 7fed, mis Mawrth yn festri Capel Mawr am 730 y.h.

**Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd** - Mawrth 14eg - Noson Cyflwyno yn Adran Cancr yr Ysbyty am 7 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

**21ain o Fawrth** – Swper Gŵyl Ddewi Y Fron, Y Brwcws a'r Capel Mawr yn Festri'r Capel Mawr am 7 o'r gloch. Gwraig wadd - Mrs Haf Evans, Henllan. Tocynnau - £5

**Ebrill 7fed** Bore Goffi yn Eirianfa 10-12 MENCAP Dinbych a Rhuthun

**Cymdeithas Caledfryn** - Mawrth 23ain Cinio Blynyddol – Geraint Lovgreen.

**Gwefr Heb Wifrau** - "Yr Efe - Syr T.H. Parry-Williams a'r Isymwybod" yw teitl darlith Ioan Talfryn ar **Ebrill 27ain** yn Amgueddfa Gwefr heb Wifrau.

**Mehefin 29** Noson Goffi a Hwyl yn Ysgol Llanrhaeadr - MENCAP Dinbych a Rhuthun

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

## Cyfarchion



Pen-blwydd Hapus iawn i Awen Mair yn 7 oed ar Fawrth 31. Llawer o gariad, oddi wrth, Dad, Mam, Guto ac Elen; Nain a Taid Trefnant; Nain a Taid Pwllglas a'r teulu i gyd. xxxx

### BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Ysgol Glan Clwyd | £100.00 |
| Di enw | £ 20.00 |
| John Idris ac Einir Owen | £ 20.00 |
| Haydn a Menna Williams | £ 10.00 |
| John Geraint ac Eiri Jones | £ 5.00 |
| Maldwyn Evans | £ 5.00 |
| Dafydd ac Alwena Williams | £ 5.00 |
| Nerys Owen | £ 10.00 |

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
Cyngor Morgais Di-Ffi
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

# Y Capeli

## Capel Brwcws

Dydd Sul, Ionawr 21ain Elin Jones a Magi fu yn gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul.

Ar y Sul olaf o fis Ionawr agorwyd yr Ysgol Sul gan Catrin Jones.
Oedfa Gymun, o dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago, a gafwyd yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes. Anfonwyd dymuniadau gorau at Edith Jones, Llys y Coed yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen ac at rhai o'r aelodau oedd heb fod yn dda.

Cari a George Cattell fu yn agor yr Ysgol Sul Chwefror 4ydd.
Croesawyd Mr Dewi Williams, Llannefydd i oedfa'r prynhawn. Cydymdeimlwyd a Edith Jones, Llys y Coed a John Alwyn Jones, Brondyffryn yn dilyn marwolaeth eu chwaer Enyd Davies, Bryn Ocyn, Saron.

Dydd Sul, Chwefror 11eg bu Oedfa'r Fro yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr.

## Capel Y Fron

Bore dydd Sul Ionawr 21ain yr organyddes oedd Mrs Eiri Jones yn y cyfarfod gweddi bendithiol iawn a gawsom ac yr oedd Mrs Iona Edwards, Mrs Carys a Mr Erfyl Williams a Mr Gwilym Luke Jones yn cymeryd rhan. Llywyddwyd gan Mrs Wendy Jones.

Yr oedd yr oedfa gymun a'r gwasanaeth bore Sul Ionawr 28ain dan ofal ein Gweinidog gyda Mrs Wendy Jones yn llywyddu a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Gwyneth Morris sydd wedi mynd i Gartref Dolwen am seibiant bach.

Nos Wener Ionawr 9fed cynhaliwyd Ocsiwn addewidion yn Melin Brwcws. Yr oedd hon yn noson lwyddianus iawn unwaith eto ac wedi cael ei threfnu gan John Geraint Jones a'r arwerthwr oedd Mr Glyn Owens. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd at y noson yma – ac hefyd i Medwyn Jones, John Howatson, Gwyrfai Jones, Richard Snelson, Eiri Jones a Nia Angharad Jones am gynorthwyo ar y noson ac i Erfyl Williams am fod yn ngofal y raffl.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Mr Dewi Williams. Llannefydd, oedd y cennad ar y Sul cyntaf o Chwefror. Croesawyd ef gan Mr Stan Lyall, llywydd y mis, a'r cyfeilydd oedd Mrs Dorothy Rogers.

# Y Cymdeithasau



Mike a Dei Rich

## Cymdeithas Caledfryn

‘Gwaith ar lwyfannau olew’ oedd testun sgwrs ein gwestai, Mike Hughes o Gerrigydrudion. Bellach mae Mike yn gweithio ar lwyfan olew yn Qatar yn y Dwyrain Canol ac yn gyfrifol am 150 o weithwyr ac o’r wlad honno y daw ein nwy ni yma yn Ninbych! Mae litr o betrol yn costio 8 ceiniog yn Qatar hefyd!! Cychwynnodd Mike yn y diwydiant olew yn 26 oed ym Môr y Gogledd a bu’n gweithio mewn sawl gwlad ar draws y byd. Am bedair blynedd bu’n drilio am olew i Gwmni Shell yn Nigeria a bu’n gweithio ym Mangladesh lle roedd y ffyrdd yn wael a pheryglus o’r maes awyr yn Dacca i’r llwyfan olew, taith o dair awr. Yn Papwa Gini Newydd yn y Môr Tawel, bu’n gweithio gyda’r bobol leol ar lwyfan olew.

Mae llawer wedi aros yng nghof Mike o weithio dramor – y saethu yn Nigeria, ei roi yn y jêl yn y maes awyr yn Dacca a’r ‘prynu’ gwragedd, dim am arian, ond am gyflenwad o foch ymhlith brodorion Papwa Gini Newydd.

Yn ôl Mike, mae yna ddigon o nwy ac olew yn y byd am 50 mlynedd a mwy, gyda Feneswela a Rwsia ymhlith y prif gynhyrchwyr bellach gyda llawer o nwy ac olew heb eu darganfod eto yng ngwledydd Affrica ac yn yr Antartica.

Mae Mike yn gweithio 28 diwrnod ar y llwyfan olew, bob yn ail â threulio 28 diwrnod adref yng Ngherrigydrudion, a gan ei fod yn bwriadu ymddeol mewn pedair blynedd, ni fydd raid iddo weithio ond am ddwy flynedd lawn!!

Cafwyd sgwrs ddiddorol a ffraeth gan Mike ac roedd testun ei sgwrs yn agoriad llygad ac yn addysg i lawer ohonom yn y gynulleidfa. Llywyddwyd gan Dei Rich, hen ffrind i Mike ac fe gydymdeimlwyd â Llifon sydd wedi colli ei chwaer.

### HEN LUNIAU

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.



*Dic, Marged a Gwawr.*

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Bu cryn newidiadau o ran cyfarfod Chwefror.

Oherwydd ei thrafferthion iechyd ei hun a'i gwr, nid oedd Eigra Lewis Roberts wedi gallu cadw at y trefniant i ddod a son am gefndir ei llyfr newydd.

Yr oeddem yn hynod o ddiolchgar i un o'n haelodau, Dic Jones o Ruddlan, am gytuno i sefyll yn y bwlch hefo sgwrs hefo lluniau o dan y pennawd "Cysylltiadau" oedd yn olrhain hanes prynu ei gyn-gartref Pentre Cwm Dyserth a'i adfer ynghyd a'r ymchwil a wnaed i hanes yr adeilad ayyb.

Cyflwynwyd Mr Jones a diolchwyd iddo gan Gwawr Cordiner a chafwyd tipyn o holi ac ateb cyn mwynhau paned a baratowyd gan Carys ac Erfyl Williams oedd yn sefyll i mewn dros Alwena a Dafydd Williams oedd wedi meddwl na fyddent yn gallu bod yn bresennol - er i'w cynlluniau newid ac iddynt allu bod yn y cyfarfod a helpu hefo'r baned yn y diwedd! Cryn newidiadau felly!

*Dilwyn – Ysgrifennydd*



## Cymdeithas Flodau Dinbych a'r Cylch



Croesawodd Doris bawb ar ddechrau'r cyfarfod, ein cyfarfod cyntaf eleni, a chyflwynodd yr arddangoswraig, Sarah Fenton o Telford i ni. Thema'r arddangosfa oedd “Strictly Come Flower Arranging.”

**Yr Walts**
Mewn cynhwysydd tal tennau fe roed rhosod pinc, liliau a rhedyn yn rhyw lun o ddylifo i greu symudiad yr Walts.

**Y Cha-cha**
Rhoed lemon wedi ei sleisio a seloffen mewn fas wydr, dal, dennau, yna'i llenwi á dwr. Yna gosodwyd y trefniant ar ei phen, trefniant yn cynnwys gerberas o liw oren a choch llachar gyda gliter yng nghanol bob blodyn a gwair dur wedi ei lunio'n gylchoedd i gyfleu symudiadau'r Cha-cha.



**Pasadoble**
Yma, gosodwyd gwelltglas a thiwlips mewn powlen wydr, gron. Yna, rhoed cynhwysydd arni yn cynnwys dail gwyrddion stiff a dail asbidistra wedi eu llunio fel conau, hefyd, rhosod cochion, tiwlips a deiliach a greodd y teimlad o symud braidd yn stiff i'r cynllun.

**Goleuadau Stiwdio**
Deiliach gwyrdd a llwyd, liliau gwynion, anastacia, ffarwel haf gwynion, rhosod gwynion gyda golau yn treiddio drwy'r gosodiad. Effeithiol iawn.

**Y Band Pres**
Roedd y cynhwysydd wedi ei droi á'i ben i waered fel trwmped gyda gosodiad o flodau'r haul, blodau lliw oren, rhosod cochion gyda rhyw niwlen o weiryn bambw ar ei ben.

**Y Dawnsiwr**
Defnyddiwyd pedestal ar gyfer y gosodiad yma i greu'r effaith o rywun yn dawnsio.

**Palmwydd y parlwr**
Gyda blodau murwyll (stock) hyfryd, liliau, rhosod pinc, carnasiwn pinc a dau degeirian mawr. Roedd yn syniad oedd yn llifo gan roi'r dehongliad o ddawnsiwr wrth ei waith. Pleserus iawn.

Diolchodd Felicity Cooksay i Sarah Fenton am noson ysbrydoledig ac am rannu ei dawn á ni. Bydd ein cyfarfod nesa ar y 6ed o Fawrth yn Ysgoldy'r Capel Mawr am 7.30

*J Margherita Jones*




Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Cariad a Choffi efo Popeth Cymraeg

Roedd cariad a choffi'n llifo efo Popeth Cymraeg ddydd Iau, 25 Ionawr, wrth i'r Ganolfan ddathlu Dydd Santes Dwynwen. Mi ddaeth myfyrwyr a Chymry Cymraeg o bob cwr o Ddinbych a thu hwnt i ddathlu.

Trefnwyd y digwyddiad gan Nerys Ann Roberts, a'i dysgwyr blwyddyn gyntaf hi oedd yn gyfrifol am y gweini. Dywed Ioan Talfryn, Prif Weithredwr y ganolfan, "Mae'r dathliad hwn yn dangos fel y gall dysgwyr fwynhau dysgu trwy ddefnyddio eu Cymraeg a dod yn rhan o'r gymuned. Diolch yn fawr i Nerys Ann am drefnu'r digwyddiad ac i bawb a'n cefnogodd."



## Clwb Strôc, Calon a Brest Dinbych a'r Cylch

Mae'n drist gennym ddweud gan fod y niferoedd wedi gostwng, a pobl yn mynd yn hyn, mae'r pwyllgor wedi penderfynu bod rhaid terfynnu ar weithgareddau y Clwb. Bydd y Clwb yn cael y cyfarfod olaf yn mis Mai.
Mi hoffwn ddiolch i bawb a fuodd yn gefnogol i ni dros y 32 o flynyddoedd.

*R W Mortimer a'r pwyllgor.*

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

## Cyngor Tref Dinbych yn noddi Eisteddfod yr Urdd 2020




Y Cynghorydd Roy Tickle, Maer Cyngor Tref Dinbych gydag Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, Urdd Gobaith Cymru

Y mae Cyngor Tref Dinbych wedi cyhoeddi y bydd hi yn cynnig nawdd o £6,000 ar gyfer y flwyddyn arianol 2018/2019 i gefnogi'r ymgyrch o godi arian tuag at ymweliad Eisteddfod yr Urdd â Sir Ddinbych ymhen dwy flynedd, yn 2020.

Bydd cyfraniad y Cyngor yn rhoi hwb i'r gronfa leol ac i darged Pwyllgor Apêl Tref Dinbych sef £60,000. Ers y cyfarfod cyhoeddus ym mis Mehefin 2017 wnaeth wahodd yr Eisteddfod yn ffurfiol i'r Sir, mae eisoes dros draean o bwyllgorau apêl wedi eu sefydlu ac maent bellach wrthi'n ddiwyd yn trefnu gweithgareddau, er mwyn cynorthwyo yn yr ymdrech i gyrraedd y nod ariannol. Mae'r sefyllfa yn argoeli'n dda a'r gobaith yw bydd y cyfan wedi'u sefydlu erbyn yr haf.

Dyma fydd ymweliad cyntaf Eisteddfod yr Urdd â thref Dinbych ei hun, er iddi gael ei chynnal yn y sir saith gwaith yn y gorffennol.

Dywedodd y Cynghorydd Roy Tickle, Maer Cyngor Tref Dinbych, "Rydym ni fel Cyngor Tref yn falch iawn o allu rhoi y swm yma o arian i gynorthwyo ymdrech y gymuned leol led-led Sir Ddinbych i godi arian tuag at groesawu Eisteddfod yr Urdd yma i'r sir yn 2020. Gwn bod plant a phobl ifanc y dref, â'r sir yn ei chyfanrwydd yn edrych ymlaen yn arw at groesawu eu teuluoedd a'u ffrindiau i'n milltir sgwâr fel rhan o ŵyl ieuenctid fwyaf Cymru."

Ychwanegodd Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau gyda'r Urdd, "Hoffwn ddiolch o waelod calon i Gyngor Tref Dinbych am eu haelioni drwy wneud y rhodd cychwynnol hwn i gronfa apêl Eisteddfod Dinbych 2020. Nid yw cynnal gŵyl o faint Eisteddfod yr Urdd, sy'n croesawu 15,000 o blant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru i'r maes ar ddiwedd mis Mai bob blwyddyn, yn orchwyl rhad. Gwn bod pwyllgorau di-ri wedi eu sefydlu eisoes at draws y sir i gynorthwyo yn y broses o hel tuag at yr apêl, a hoffwn ddiolch hefyd iddyn nhw am eu holl waith caled hyd yn hyn a thros y misoedd sydd i ddod."

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yr ardal a'u teuluoedd, mae gwaith ymchwil yn dangos bod ymweliad yr Eisteddfod ag ardaloedd yn cyfrannu hyd at £6 miliwn i'r ardal leol a bod 78% o'r ymwelwyr yn gwario arian mewn busnesau lleol.

---

# GŴYL DDRAMA CORWEN A'R CYLCH 2018

Gyda thymor cyflwyno dramâu mewn sawl tre a phentref yn ei hanterth, dyma gyfle i dynnu sylw at Wŷl Ddrama Corwen fydd yn cael ei chynnal eleni rhwng Mai 7-12. Lleolir yr Ŵyl flynyddol hon yn Neuadd Edeyrnion yng nghanol tre Corwen ac eleni rydym yn dathlu 37 mlynedd ers ei sefydlu.

Y Beirniad eleni yw Steffan Parry. Wedi ei fagu ar fferm Tu Ucha'r Llyn ym mhentref Gwyddelwern, ger Corwen, Steffan oedd enillydd Gwobr Goffa Richard Burton yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meifod yn 2013. Wedi iddo raddio o Goleg y Drindod, Caerfyrddin, yn dilyn cwrs drama, bu'n actio ar y gyfres deledu Rownd a Rownd yn ogystal â chynyrchiadau eraill cyn troi at fyd addysg.

Mae gan yr Ŵyl gystadlaethau chwarae drama un act Gymraeg i wahanol oedran yn ogystal â chystadleuaeth cyflwyniad i grŵp o ddysgwyr y Gymraeg.

Eleni cynigir cystadleuaeth newydd sbon sef Cyflwyno Monolog bedwar munud o hyd i actorion 19 oed ac iau. Testun: agored.

Bydd tlysau/cwpanau i actor a chwmni gorau ymhob oedran yn ogystal â gwobr ariannol.

Yn ogystal â'r cystadlaethau llwyfan, mae gan yr Ŵyl flynyddol hon gystadleuaeth ysgrifennu drama un act. Dylid anfon y gwaith i'r ysgrifennydd erbyn Ebrill 1.

Beth am fynd amdani gwmnïau drama? Dewch draw i Gorwen ym mis Mai i gystadlu am wobrau yn un o wyliau drama hynaf Gogledd Cymru. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ym mro Edeyrnion.

Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, (dyddiad cau dychwelyd ffurflen gais yw Mawrth 31), cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Nesta Evans, Frondeg, Maerdy, Corwen. LL21 0NY. Ffon: 01490 460361 Gweplyfr: Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch

# PENBLWYDD Y BIGWN


Y BIGWN

CYF 1 RHIF 1 MAWRTH 1988 PRIS 20c

WY'ST TI DEI?

Ganllath o Orsaf Euston, pan oedd gwich
Cerbydau'r cledrau'n gwahodd tua thre
Ac yntau'n rhuthro'n wyllt am loches sych
Rhag gerwin bigau'r glaw - ar y ddo
Yn ffenestr ffrynt y "Tie Shop" - megis rhith -
Gwaelodd dei rhyfeddol prin ar y rac.
Dinbych Ddydd San Steffan, wedi'r llith,
Barlyswyd ennyd; ni chwpanwyd pac
Na heliwr 'chwaith gan Anrhydeddus Faer
Y Dref. Mynnodd yntau gadw draw
Oblegid cydymdeimlai gyda phrae'r
Marchogion coch. Yna heb frys na braw,
Ar ôl i'r helfa fynd, wele Dei
Yn dychwel yn ei gadwyn aur a'i dei.
(gydag ymddiheuriadau i R. Williams Parry)

Mae'r Maer, y Cyng. David Jones, wedi penderfynu arwerthu'r tei, a'r elw i fynd at elusennau lleol. Mae eisoes wedi derbyn cynnig o £100 o Sir Fôn, ond byddai'n croesawu cynigion uwch, trwy'r post i:-
**Clerc y Dref,**
**Y Neuadd Wen,**
**Dinbych.**

*(Rhaid i ni gadw'r tei hanesyddol hwn yn Nyffryn Clwyd. Rhowch gynnig amdano - a hwnnw'n gynnig uchel- Gol.)*

LLWYDDIANT LLENOR

Dylan Wyn Williams y llenor ifanc a gipiodd wobr "Helo Bobol"

DAU YN Y TÎM

Alan Jones ac Owain Manod Rees a ddewiswyd i chwarae pêldroed dros Ogledd Cymru o dan 14 oed.

Mynnwch gopi o'r BIGWN bob mi-

A minnau bron a gorffen paratoi y rhifyn hwn, cefais neges am y si bod hi'n benblwydd tri deg oed ar Y Bigwn ym mis Mawrth. Gan bod peth ansicrwydd am union ddyddiad y cychwyn, ar y ffon a mi at Hywel ein cysodydd a Berwyn, a'r ddau yn dweud na wyddent am yr wyth rhifyn cyntaf gan nad Hywel a'u hargraffodd.

Awgrymodd Berwyn mai y diweddar John Glyn oedd yn gyfrifol ar y cychwyn, ag y byddai Manon ei ferch yn gwybod beth ddigwyddodd i'r rhifynnau cyntaf. Daeth neges yn ol wedyn yn dweud eu bod erbyn hyn yn yr Amgueddfa a dyna yn wir lle cefais hyd i'r rhifyn cyntaf, a hefyd rhes ddi-dor o'r rhifynnau oedd yn dilyn.

Dyna wefr wrth edrych yn fras drwy hwn, a gweld newidiadau lawer mewn tri deg mlynedd. Gwelaf bod un Golygydd i ddechrau a dwsin o is-olygyddion ond buan y deuthpwyd i'r drefn sydd eto'n bod sef newid golygydd bob mis. Pwyllgor Cyllid o bump, Casglwyr Hysbysebion, dau Dynnwr Lluniau, dau i Ddosbarthu, Mathonwy a Gwilym R. yn darllen proflenni, Teipyddion ag Ysgrifennyddes.

'Roedd llawer o siarad gan John Idris Owen, y Golygydd cyntaf, am fabis newydd, sef y Bigwn, a'r angen am fwydo cywir, cyson. Wedyn cafwyd adroddiadau lawer, fel sy'n dal i ddigwydd, ond hefyd rai oddiwrth yr Ysgol Uwchradd, rhai ysbeidiol oddiwrth Ysgol Howel, colofn garddio dan ofal Rhobat, bwyta'n iach gan Ann Mortimer, manion Meddygol, newyddion y Llyfrgell, Cornel y Beirdd a phytiau barddonol yn britho'r cyfan. Mae ynddo lawer darn byr o newyddion a hysbysebion lu, llawer enw cyfarwydd a rhaid tynnu sylw at un enw oedd yno ar y cychwyn a sy'n dal i gyfrannu – Huw y Cartwnydd. Llongyfarchiadau iddo a llawer o ddiolch. 'Roedd ei gynnig cyntaf yn tynnu sylw at y cyhoeddiad arall ddaeth allan ar Mawrth 1af 1988, sef y Beibl Newydd, a hyn yn peri ambell i sylw ffraeth. Mae yma syniadau da, a rhai y gellid eu hadfer eto yn y Bigwn.
'Doedd dim defnydd o liw yn y lluniau cynnar ond yr oedd ysbryd disgwylgar iawn yn neidio oddiar y dalennau.

Ceredig.

---

Annwyl Gyfaill,

Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd, darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel dych chi'n gallu. Bydd yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi helpu sicrhau dyfodol i'r iaith. Dewch.

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, **cymdeithas.cymru/ymaelodi**, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros ddyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir,
Steffan Webb
Swyddog
Aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
3–11 Awst 2018

## Apêl am gyfraniadau a gwobrau

Gyda chwta chwe mis i fynd, mae gwaith trefnu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhelir rhwng 3 - 11 Awst eleni ym Mae Caerdydd yn prysuro ymlaen.
Mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn gweithio'n ddygn ar y testunau yn ogystal â'r myrdd o weithgareddau cymunedol sydd wedi ac yn cael eu trefnu i godi arian tuag at y £320,000 a osodwyd fel nod i'r gronfa leol, sef cyfraniad Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a mwy y flwyddyn sydd i gynnal yr ŵyl.
Medd Ashok Ahir, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith "Mae'r apêl ariannol yn mynd yn dda, ac yr ydym wedi pasio £200,000 gyda throad y flwyddyn newydd. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi hyd yma. Beth sydd ei angen yn awr yw un ymdrech fawr dros y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod ariannol, i'n galluogi i gynnal Prifwyl yma yng Nghaerdydd fydd yn cwrdd â disgwyliadau'r miloedd o ymwelwyr ddaw o bob rhan o Gymru a thu hwnt fis Awst."
Yn ogystal â chyfrannu, mae unigolion a sefydliadau yn medru cynnig gwobr ariannol gyda rhai yn dymuno gwneud hynny er cof am rywun arbennig. Mae rhoi gwobr yn ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol - tybed oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?
Mae cynnig gwobr yn rhwydd, gellir cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod drwy dudalen Rhoi Gwobr dan adran 2018 y wefan www.eisteddfod.cymru; dros y ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio gwyb@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol.
Mae gwobrau ariannol ar gael i'w cyfrannu ymhob adran o'r Eisteddfod gan amrywio o £15 i £5,000! Mi fydd pob cyfraniad o £50 a mwy a dderbynnir cyn diwedd Ebrill yn cael ei gydnabod yn y Rhaglen.

Diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth. Am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys manylion y cystadlaethau, Maes Carafanau a gwirfoddoli yng Nghaerdydd, ewch draw i www.eisteddfod.cymru

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter

## PAPURAU NEWYDDION

Oes gennych farn am safon y papurau newydd y dyddiau hyn – ag eithrio hwn wrth gwrs!! Mae'r Bigwn yn hollol ddi-fai ag yn esiampl o safon chwaethus ar hyd yr amser. Felly hefyd y Free Press i raddau, ein papur wythnosol Saesneg, gan ganiatau bod ynddo hanes eithaf plwyfol ond amrywiol a llawer iawn o hysbysebion. Ond nid hoff gennyf safon ein papur dyddiol Saesneg – gwell peidio ei enwi rhag ofn achos Llys yn fy erbyn. A oes rhaid i ni ddarllen adroddiadau am ladrata, ymosodiau, rheibio, llofruddio ag yn y blaen, yn ddi ben draw, gyda lluniau mawr o'r drwg weithredwyr yn syllu arnoch i helpu llenwi'r ddalen.

Mae'n rhaid bod hel newyddion o'r math hwn yn llwyddo i werthu papurau newydd ag yn plesio rhai pobol, ond mae llawer hefyd yn troi yn ei erbyn ag yn dal at y papur yn unig er mwyn y genedigaethau, marwolaethau a hefyd yr atodiad Cymraeg ar ddydd Mercher. Sylwaf eu bod wedi cychwyn trefn i brynu'r papur am lai o bris ond i chi ei brynu yn barhaol. Arwydd drwg fe dybiwn.

Beth wedyn am y lleill? Mae Golwg i'w weld yn gyfoes, ag yn ysgafnach o dipyn na Barn neu O'r Pedwar Gwynt sydd, ill dau, bron yn gyfnodolion, yn swmpus iawn ag yn medru peri diffyg traul ymenyddol ar brydiau. Mae'r Cymro druan wedi mynd o dan y don er iddo wneud hyn sawl gwaith o'r blaen. Mae colled ar ei ol, yn bendant. 'Roedd yn anelu at y llwybr canol. Tybiaf bod ei ddarllenwyr bellach yn troi at Golwg.

Dafydd a'i Farn

**Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch**
**Cyfarwyddwr Cerdd Beryl Lloyd Roberts**
**Cyfeilydd Tim Stuart**
**Cyngerdd**
**Neuadd y Dref, Dinbych,**
**Nos Wener Ebrill 13eg 2018, 7.30yh**
**gyda**
**Meinir Wyn Roberts a Steffan Prys**
**Tocynnau £8 – Siop Clwyd, Siop Siocled**
**neu 01745 812944**

**J. H. & B. JONES**


**CIGYDD TEULU**
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132

## Atebion Chwefror 2018

**Ar Draws :** 7ac8 Un no sola leuad 10. Plectrwm 11. Swynol 12. Estron 13. Samariad 15. Diploma 17. Unolwyn 20. Crimogwr 22. Edmygu 24. Indigo 26. Synhwyro 27. Noswylio 28. Opera

**I Lawr :** 1. Mudlosgi 2. Snwcer 3. Astronomeg 4. Gormesu 5. Caws 6. Pelydrol 9. Aloha 14. Manceinion 16. Limrigwr 18. Ysgariad 19. Brysiog 21. Rondo 23. Mawredd 25. Odli

## CROESAIR MAWRTH 2018




### Ar Draws

1. Nid Gweriniaethwr
5. Gorchudd llawr
9. Un sy'n paratoi
10. Pennaeth lleiandy
12. Ffermio
13. Peiriant rhoi pres (3,2,1,3)
14. Astudiaeth o greaduriaid pluog
16. Bod yn arwydd o'r hyn sydd i ddod
19. Boneddigaidd
21. Bwriad i achosi niwed
23. Maent i'w cael mewn coleg
25. Mae 3il yn enghraifft
26. Nid gwas
27. Anifail sy'n bwyta pryfed
28. "Mae'r esgid fach yn ……"
29. Wedi ymlâdd

### I Lawr

1. Ymresymu
2. Tir graeanog
3. Cyfres ar S4C ar nos Sul
4. Yn ymwneud â sain
6. Neilltuol
7. Ffynnon
8. Llachar
11. Llwybr gadael
15. Derbyn sefyllfa fel ag y mae
17. Gallant fod o'r India neu o Affrica
18. Ysgolheigaidd
20. Arogl
21. ……. a chryman ar faner yr Undeb Sofietaidd
22. Pentref yn ne Sir Ddinbych
24. Saws Indiaidd i gyd-fynd â chyrri
25. Clogwyn

# CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH
## PRINDER SIARADWYR CYMRAEG

Mae Cyngor Ar Bopeth yn elusen sydd bob amser yn hapus i dderbyn gwaed newydd yn gwirfoddolwyr. Yn anffodus, mae prinder wirioneddol o wirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n ei gwneud hi'n hynod anodd i gynnig gwasanaeth cyflawn a chyson drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am wirfoddoli, beth am ffonio 01745 818081 neu ebostio roy.charlesworth@dcab.co.uk?

Mae u'n o'n gwirfoddolwyr lleol wedi rhannu ei brofiadau efo ni yn yr adroddiad isod, felly beth am roi cynnig arni?

*John Davies*
ar ran Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych

Mi ddechreuais wirfoddoli efo Cyngor ar Bopeth (CAB) yn 2015, yn fyr o'r syniad cyntaf ynglyn á pha fath o wasanaeth sydd yn cael ei gynnig.

Pwysleiswyd o'r dechrau mai gwasanaeth ANNIBYNNOL, AMHLEIDIOL, CYFRINACHOL a DI-DÁL yw'r un a gynigwyd gan CAB.

Annibyniaeth yn golygu medrith CAB gynrychioli'r Cleient a neb arall; amhleidgarwch yn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael I bawb – triniaeth deg I bawb; polisi o gyfrinachedd yn golygu nid yw'r hyn a ddywedir yn CAB yn mynd yn bellach; a'r gwasanaeth yn un rhad ac am ddim.

Fel pob gwirfoddolwr arall, dilynais raglen o hyfforddiant, hyn yn cymryd lle ochr yn ochr á gwirfoddolwyr eraill oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant, yn gwneud yn glir i mi'r fath safonau buasai rhaid cyrraedd – sylwais o'r dechrau ymrwymiad digyfaddawd i'r safonau uchaf, ymroddiad pur tuag at safonau a fuasai o ddefnydd i'r rhai mewn angen.

Yr un mor amlwg á'r ymrwymiad i'r safonau uchaf oedd cyfeillgarwch y gwirfoddolwyr eraill a'r staff – rhannwyd pob cwestiwn, a, fel arfer, fuasai rhywun yn gwybod yr ateb neu ble i ddod o hyd i'r ateb.

Mae'r CAB yn llwyddo oherwydd amrywiaeth eu gwirfoddolwyr a'u staff, pob un a'i gefndir personol, ei brofiad a'i ddoethineb i gyfrannu. Ni fychanwyd cyfraniad unrhyw wirfoddolwr – gwerthfawrogir pob barn. Fel gwirfoddolwr rhaid meddwl nid yn unig am bob person fel unigolyn, ond hefyd ailfeddwl amdanoch chi eich hun – meddwl o ddifri am y pethau rydych yn dda yn eu gwneud a chyfrannu'r pethau hynny i'r achos er mwyn eu defnyddio er lles Cleientiaid a gwirfoddolwyr eraill – fedrith gwirfoddoli eich helpu i feddwl am eich hun ac eraill mewn modd mwy positif.

Hefo cefnogaeth a help eraill mi gyrhaeddais ddiwedd y rhaglen hyfforddi – cyn sylweddoli nad ydy'r cyfnod o ddysgu byth ar ben yn CAB. Y mwya mae rhywun yn dysgu, mwy mae rhywun yn gweld sydd i ddysgu. Amrywiaeth y cwestiynnau wedi fy arwain i lefydd gwbl ddiarth imi. Mae yna fanc data i helpu pawb, yn ogystal á chyd-wirfoddolwyr cefnogol, profiadol a gwybodus.

Cymerwyd pob cwestiwn o ddifri. Mae'r System Budd-daliadau mor gymleth mae ambell un yn byw heb y budd-daliad sydd yn ddyledus iddo; toriadau yn lefel y budd-daliadau yn creu tlodi. Ambell un o wirfoddolwyr a staff yn rhannu anfodlonrwydd, angrhediniaeth a rhwystredigaeth y Cleientiaid yn wyneb y driniaeth maent yn eu haeddu; ysgrifennu llythyrau i herio penderfyniadau lle bu taliadau wedi dod i ben; ymateb i ymholiadau am wybodaeth dros y teleffon; helpu Cleientiaid i ddeall ac i ddatrys problemau.

Hyn i gyd yn cael ei wneud gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr a staff gweithgar – nid ydych byth ar ben eich hun nac yn fyr o gefnogaeth yn CAB.

Felly, beth am wirfoddoli hefo CAB? Cewch gyfle i ailasesu a gwerthfawrogi chi eich hun, ac eraill, o'r newydd – meddyliwch am eich sgiliau a'ch profiadau, eich gwybodaeth a thalentau, a sut fedrwch eu defnyddio er lles pobl leol. Fedrith eich cyfraniad a'ch gwaith newid a gwella bywydau pobl sydd a wir angen eich help – hyn i gyd mewn swyddfa llawn cyd-wirfoddolwyr cefnogol a phrofiadol hefo digon o de, coffi a bisgedi.

Peidiwch ag oedi – gobeithiwn glywed gennych mor fuan á phosib.

*Gwirfoddolwr gyda Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych*

## YSGOLORIAETH R D HUGHES

Mae gan ymddiriedolwyr y Sefydliad uchod y pwer i gynorthwyo myfyrwyr Prifysgol:

(a) sydd wedi'u geni yn yr ardal sydd wedi'i chynnwys yng Nghymuned Dinbych (h.y. Bwrdreistref Dinbych gynt)
NEU
(b) sydd â rhiant neu rieni a oedd yn preswylio yn yr ardal dan sylw adeg ei eni neu ei geni
NEU
(c) sydd ar ddyddiad dyfarnu'r ysgoloriaeth, â rhiant neu rieni yn preswylio yn yr ardal dan sylw ac sydd wedi preswylio yno am gyfanswm o ddeng mlynnedd o leiaf cyn y dyddiad hwnw.

Dylai myfyrwyr Prifysgol sy'n gymwys dan unrhyw un o'r penawdau wneud cais i Glerc Y Sefydliad, Mr J G Jones, 18 Llys Marchell, Dinbych LL16 4AR (jones_john@btinternet.com) am ffurflen gais. Yna dylid ei dychwelyd erbyn 30 Medi 2018.



# Bydd canu yn y nefoedd.

Mae trefi marchnad Llanrwst a Dinbych yn eithaf tebyg i'w gilydd ac yn arbennig gan fod y ddwy yn berchen ar strydoedd adnabyddus, sef Stryd Scotland yn Llanrwst a Stryd Henllan yma yn Ninbych. Mae hanesion difyr am y ddwy, ond nid dyma'r bwriad yn yr erthygl hon.

Hoffwn dynnu eich sylw at gymeriad nodedig o Lanrwst o'r enw John Roberts, ddaeth yma i Ddinbych i ddilyn ei alwedigaeth fel gwneuthurwr basgedi gwiail bedw ac yn y blaen. Mae'r to hyn ohonoch 'rwyn siwr yn cofio'r adeg pan oedd gwialen fedw i'w chael bron ymhob cartref lle byddai plant, hyn er mwyn cadw disgyblaeth ar unrhyw un oedd yn mynd dros y tresi.

Meddai John Roberts ar gorff cryf a thal, ysgwyddau llydain, ynghyd á golwg benderfynol. Er yn dlawd ei amgylchiadau, yr oedd yn hawlio sylw pawb.

Pan ddaeth yma gyntaf yr oedd yr achos yn y capeli, gan gynnwys y Capel Mawr, yn prysur wanhau ac fe benderfynnodd, gan ddechrau gyda'r Ysgol Sul, adfer y sefyllfa yno. O hyn allan, o achos ei frwdfrydedd, blodeuodd yr ysgol a daeth John Roberts fel math o frenin yn yr ardal. Am amser maith ef oedd yr unig athro ynddi. Ái yn aml i ben uchaf Stryd Henllan i ymofyn plant, weithiau gyda'i wialen fedw yn ei law. Yr oedd natur ei grefydd ynghyd a'i ddull llym o gadw trefn, yn fodd rhywsut i ddenu llawer ar ei ól.

Dyma i chi ychydig o benillion cocosaidd gan un T.R.W. oedd yn amlwg yn adnabod John Roberts yn dda. Testun ei gan oedd 'Ysgol Sul y Capel Mawr.'

Athraw arall go lew oedd John Roberts, Llanrwst -
'Doedd wiw i ni'r bechgyn wneud mymryn o drwst::
Pe byddai rhyw un yn fwy mentrus na'r llall,
Bón llyfr ar ei gorun a'i gwnai yn fwy call.

'Roedd urddas ynglyn a John Roberts bid siwr -
Ffroc cót a het silc oedd amgylchedd y gwr;
Ond pan ar ei liniau 'nghyffiniau'r sét fawr,
Ei ddagrau a lifai nes gwlychu y llawr.

Un Sul dyma fachgen yn llenwi yr het,
A darnau o bapur gwyn mán fel conffeti
A John wrth fynd allan, gwyd hon at ei ben,
A synnodd weld eira yn disgyn o'r nen.

'Dyw'r gán ddim yn son am adwaith John Roberts i hyn.

Heblaw bod gyda'r plant, yr oedd yn flaenllaw ym mhob moddion a'i 'Amen' a'i 'Bendigedig' yn datseinio drwy'r capel yn lliwio'r gwasanaethau, ac yn hawlio clodydd rhai fel y Parchedigion, Henry Rees a Thomas Jones.

Gan fod bywydau capelwyr yr adeg honno yn gul iawn – dim rhegi na chymryd enw Duw yn ofer, dim darllen papur ar y Sul ac yn y blaen, yr oedd dangos drws y capel am bron bopeth, hyd yn oed mam yn anfon ei mherch i ddrws cefn y siop ar y Sul i nol torth. Os oedd priodas wedi ei threfnu yn y capel, byddai John Roberts o gwmpas i sicrhau na fyddai dim allan o'i le yn mynd ymlaen.

Bryd hynny yr oedd y Methodistiaid yn erbyn eisteddfota. Gan fod William Williams (Caledfryn) y bardd adnabyddus, yntau'n weinidog ordiniedig, yn eisteddfodwr brwd a llwyddiannus, bu rhaid iddo yntau adael y Capel Mawr a symud i ben arall y stryd at yr Annibynwyr yn Lon Swan lle y cafodd groeso cynnes.

Er ei fod á diddordeb dwfn mewn llawer o bethau tebyg, fel codwr canu yr enwogodd John Roberts ei hun fwyaf. Gan fod yr amser hwnnw, wrthwynebiad i ddefnyddio organ yn y capel, yr oedd cyfrifoldeb sylweddol yn disgyn ar ysgwyddau y codwr canu. Dim ond ym mis Medi 1888 y cafwyd organ yno, wedi ei chyflenwi gan Mr Bellamy o'r dref hon. Yr oedd angen llais cywir a chryf i arwain yr emynau, ac yn y cyswllt hwn, Thomas Gee ei hunan oedd un o'i brif edmygwyr. Yn fuan iawn fe'i bedyddiwyd fel 'Cantwr Mawr y Gogledd' – bu am flynyddoedd lawer yn arweinydd y gán yn sesiynau y Bala. Yn wir yr oedd ganddo lais clir, melodaidd, llais llawer mwy na'r cyffredin, gyda'r gallu i fynd i ysbryd geiriau'r emyn. Serch nad oedd yn gwbl gyfarwydd a rheolau cerddoriaeth, canai yn dda gyda'r gallu i gadw'r gynulleidfa mewn tón ac amser.

Digwyddodd un diwrnod fod claddedigaeth yn cychwyn o Gapel Mawr am yr Eglwys Wen. Rhoddwyd emyn allan gyda John Roberts yn ei tharo, ac yn canu medda 'nhw nes yr oedd gwas yn lladd gwair yn fferm Alafowlia ar








CAPEL MAWR, DINBYCH

Ffordd y Rhyl yn ei glywed! Tro arall, yr oedd yn cerdded i gyfeiriad Treffynnon gyda un o'r gweinidogion lleol. Wedi cyrraedd Caerwys meddai John Roberts, "Beth am i chi roddi pregeth yma wrth y Groes?" "Sut gawn ni gynulleidfa?" gofynnodd y gweinidog. "Lediwch chi bennill, mi gawn ni bobl," atebodd John. Felly y bu ac wedi iddo ddechrau canu, ymhen ychydig amser yr oedd ugeiniau wedi tyrru yno. Dywedir fod y canu i'w glywed cyn belled a thafarn y Sun rhwng Bodfari a Nannerch, Ers cyfnod John Roberts, mae sawl codwr canu wedi gwasanaethu yn Y Capel Mawr, rhai fel Aneurin Dryhurst Roberts, R.G. Jones, Harri Vaughan, Gwyn Hughes y Brwcws á'r tad a'r mab Maldwyn ac Ifor John Jones.

Dyma i chi restr o'r rhai yr wyf fi yn cofio yn y capeli eraill yn y dref -

Lon Swan - Y Mortimeriaid, Sam Vaughan Williams, David Vaughan (mab Harri Vaughan), ac Arwyn Roberts.

Y Fron – Oliver Davies, Meurig Glyn Davies, Noel a Gwyneth Morris.

Seion – Caradog Wynne a John Henry Jones.

Y Brwcws – Ceridwen Hughes a Gwilym Williams.

Pendref – Richard Owen, Herbert Lloyd Jones y Lodge, Geriant Roberts a Gwyn Hafod Elwy.

Y Bedyddwyr – William Jones, Bodeiliog, Bob Lloyd a Harold Roberts (Doh Ray Me).

Ysgwn i pwy oedd yn Tower Hill a Salem? A oes y fath swydd yn y Capel Saesneg?

Yn sicr bydd nifer ohonoch yn gallu ychwanegu at yr enwau yma. Gyda nifer o gapeli yn gorfod cloi'r drysau a'r nifer yn mynychu'r gwasanaethau yn prysur lleihau tybed fydd gofyn am godwyr canu ymhen dyweder ugain mlynedd? Os felly, yn sicr bydd yr hen John Roberts i lawr ym mynwent yr Egwlys Wen, yn troi yn ei fedd.

***R M(Bobi Owen)***

# Y "BUSBY BABES"

Diddorol oedd darllen sylwadau Stan Lyall am drychineb Munich yn y rhifyn olaf, pan gollodd 23 person eu bywydau o ganlyniad i ddamwain awyren 60 mlynedd yn ôl, yn cynnwys wyth o chwarewyr mwyaf disglair Manchester United – y "Busby Babes". Mae gen i gof clir hefyd o glywed y newyddion, nid ar y radio neu'r teledu, ond gan fy nhad.

Cefais yr anrhydedd o weld y "Busby Babes" yn chwarae, yn erbyn Tottenham Hotspur ar Old Trafford ar Ebrill 6ed 1957. Hon oedd fy gêm bêldroed "go iawn" gyntaf. Gêm ddi-sgôr oedd hi, a dwi'n cofio fawr ddim amdani, ond un chwaraewr wnaeth argraff arna'i, sef y "Centre Forward" Tommy Taylor. Roedd ganddo fop o wallt du ac yn ennill bob dim yn yr awyr. Mae rhai yn ei ystyried fel y chwaraewr gorau yn ei safle i gynrychioli United a Lloegr.

Yn anffodus, does gen i ddim rhaglen o'r gêm, ac wedi meddwl llawer gwaith os oedd yr anfarwol Duncan Edwards a Bobby Charlton, un o fy arwyr, yn chwarae. Felly, diolch i sylwadau Stan, a'r gwasanaethau coffa diweddar, penderfynais chwilio ar "Google", a dyma'r tîm:

Ray Wood, Bill Foulkes, Geoff Bent, Jackie Blanchflower, Eddie Colman, Albert Scanlon, Wilf McGuinness, Johnny Berry, Tommy Taylor, Dennis Viollet, Liam Whelan. Bu farw Tommy Taylor, Geoff Bent ac Eddie Colman oherwydd y drychineb, a chwaraeodd Jackie Blanchflower a Johnny Berry byth eto.

Er mwyn cydbwysedd, a rhag ofn i mi bechu yn erbyn Trysorydd Y Bigwn, John Geraint, ac un o 'nghyd-Olygyddion, Erfyl, ac eraill mae'n debyg, well i mi gynnwys tîm "Spurs" hefyd:

Ron Reynolds, Mel Hopkins (34 Cap i Gymru), Maurice Norman, Peter Baker, Danny Blanchflower (brawd Jackie Banchflower), Tony Marchi, Terry Dyson, Dave Dunmore, Terry Medwin (30 Cap i Gymru), Johnny Brooks a Tommy Harmer.

Am y rhesymau uchod, roeddwn yn gefnogwr brwd o United am rai blynyddoedd, nes imi gael llond bol o holl giamocs rai o'r "Sêr" mwyaf enwog (a dechrau canlyn hogan o Wrecsam yn y Coleg!) Felly yr unig amser arall imi fynd i wylio gêm yn Old Trafford oedd ym 1994 i gefnogi Wrecsam yn Mhedwaredd Rownd Cwpan yr FA! Yn anffodus, y tîm cartref gariodd y dydd o 5-2.

Er hynny i gyd, rwy'n hynod falch fy mod yn gallu dweud 'mod i wedi cael y cyfle i weld y "Busby Babes" yn chwarae.

*John Davies*

# Sglefrio

Ydach chi wedi'i weld o? Mae o yno ers dau fis o leiaf. Dwi wedi'i weld o droeon, a phob tro dwi'n ei weld o dwi'n gofidio nad ydy o wedi'i dynnu i lawr.

Yr **o** dan sylw ydy arwydd o fewn tiriogaeth Ysgol Glan Clwyd yn d'eud bod Dosbarthau Ffitrwydd... ia **dosbarthau**...ar gael yn y Ganolfan Hamdden sydd ar yr un safle.

Mae pob disgybl yn yr ysgol yn gwybod mai dosbarthiadau ydy'r gair cywir, ond mae'n amlwg nad ydy rhywun yn Adran Hamdden Sir Ddinbych yn gwybod hynny.

Dwi'n fawr obeithio nad rhywun o'r tîm cyfieithu sy'n gyfrifol!

Ac o sôn am Sir Ddinbych, pam nad ydyn nhw yn graeanu meysydd parcio pan fo hi'n dywydd oer?

Un bore Mercher rhewllyd yn ddiweddar roedd pobl yn stryffaglio ar draws prif faes parcio'r dref gan ofni llithro oherwydd ei fod ar lethr.

Doedd yna ddim graean o gwbl arno, ond roedd yna ddau draffig warder (llithriad bwriadol yn y fan yna, Mr Golygydd) yn tynnu lluniau a rhoi tocynnau parcio ar geir troseddwyr.

Oni fyddai'n arwydd o ewyllys da ar ran y cyngor i roi mwgwd dros y peiriant tocynnau (os medrent ei gyrraedd - gol),ar fore o'r fath? Oes rhaid i rywun syrthio a tharo'i ben cyn i'r cyngor sir weithredu?

O ia, ac un peth arall, sgwn i oedd yna raean ar y cowt tu allan i swyddfa'r cyngor yng Nghaledfryn?

………………………………

Mae gen i gydymdeimlad mawr efo Ben. Dach chi'n gweld, mae o'n treulio hanner ei fywyd yn chwilio am ei wraig yn yr archfarchnad leol.

Dyma'r patrwm bob tro.

Â'r ddau i mewn i'r siop yn dalog gyda'i gilydd. Mae rhywun neu rywbeth yn tynnu i sylw o, ac o fewn chwinciad chwannen mae hi wedi diflannu. Digwyddodd, darfu, megis seren wib.

Does dim modd ei gweld hi'n nunlle. Mae o'n cerdded i fyny ac i lawr y gwahanol lwybrau ddwywaith, dair gwaith. Ond ofer ydy'i ymdrechion.

Daw atgofion iddo o brofiad cyffelyb gyda'i fam pan oedd o gyda hi yn Woolworths ers talwm. Dim ond bachgen bach oedd o yr adeg honno, ac fe wnaeth o grio'n hidl. Fedar o ddim g'neud hynny ac yntau yn ddyn, na fedar!

" O b'le mae merched yn cael y ddawn i ddiflannu?"

Yna mae o'n syrthio i'r trap o ofyn iddo ef ei hun, " Be' mae hi'n wisgo heddiw?"

Gan mai dyn ydy o does ganddo ddim syniad. Dim obadeia.

Ar ôl rhyw bum munud mae'r syniad yn gwawrio arno, " Fe ro i ganiad iddi ar fy ffôn."

Ond gan nad ydy o'r person mwyaf trefnus na thechnolegol ei natur, mae o wedi gadael ei ffôn gartref.

Ar ôl deng munud mae o'n penderfynu mynd draw at y car rhag ofn ei bod hi yno yn aros amdano gan fytheirio'i bod hi'n wlyb ac yn oer. Na, does yna neb yn agos i'r car.

Yn ôl ag o i'r siop gan fawr obeithio y gwêl rhywun mae o'n nabod er mwyn gofyn, "A welsoch chi'r wraig acw?"

Ond heddiw does yna neb mae o'n nabod i'w weld yn unman, dim hyd yn oed Bobi Owen yn dal pen rheswn efo'r cigydd.

Yna, yn sydyn, mae o'n ei gweld hi wrth y silffoedd gwin. Mae o'n d'eud wrthi ei fod o wedi bod yn chwilio amdani ers munudau lawer, a'i hateb hi ydy,

" O....be gawn ni i swper heno?"

Dymuna fy ngwraig ddatgan nad oes yna unrhyw debygrwydd rhyngddi hi ag unrhyw gymeriad uchod. Yn anffodus, ni allaf dd'eud yr un peth amdanaf fy hun!

***Stan Lyall***



PBJ
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur

01745 812482

CEIR CLWYDIAN

Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol
yna, galwch i'n gweld ar-

FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Ysgol Twm o'r Nant



Ein thema yn yr Uned dan 5 am y tymor yma yw'r llyfr Un nos o rew ac eira ac rydym ni wedi bod yn gwneud pob math o weithgareddau yn ymwneud â'r thema. Dyma rai o blant y Dosbarth Derbyn efo dynion eira yr un hyd.



Ddiwedd Ionawr fe gafodd plant yr Uned dan 5 brofiadau bendigedig efo Cwmni Miri Mawr wrth iddyn nhw ail greu stori Y Bath Mawr Coch mewn ffordd aml synhwyraidd. Roedd y plant yn dawnsio, actio, symud a chanu er mwyn ail fyw profiadau'r bath mawr coch. Diolch i Lowri a chriw Miri Mawr am wythnos hwyliog iawn.



Cafwyd disgo i holl blant yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg. Roedd pawb wrth eu boddau yn dawnsio ac yn gwrando ar yr holl gerddoriaeth cymraeg gwych sydd gennym.



Bu ymwelwyr pwysig iawn yn yr ysgol yn ddiweddar sef Seren a Sbarc. Roedden nhw wedi dod i'r ysgol i hybu siarter iaith. Mae Seren a Sbarc nawr yn cuddio o gwmpas yr ysgol, yn sicrhau bod plant Ysgol Twm o'r Nant yn siarad Cymraeg bob amser.

Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a Sir yn ystod yr hanner tymor yma. Mae pawb wedi bod yn brysur yn ymafer ac yn edrych ymlaen yn fawr i gael perfformio.



Mae'r Uned dan 9 wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith ar y thema gofod. Rydym wedi bod yn edrych ar sut mae'r lleuad yn newid ei gwedd, ac wedi darganfod ffeithiau diddorol iawn am gysawd yr haul. Cafwyd greu ambell estron diddorol iawn, gan obeithio na welwn ni ddim ohonynt ar y Ddaear yn fuan!



Daeth PC Brown i ymweld a blwyddyn 3 i drafod peryglon ar y wê a sut i fod yn saff. Roedd pawb wedi derbyn neges bwysig iawn a diolch i PC Brown am ei gwaith.






Bu plant yr Uned dan 11 am drip i amgueddfa Beatles yn Lerpwl yn ystod y mis. Cawsant lawer iawn o hwyl yn teithio yn ôl i'r chwedegau a phrofi bywyd y band enwog 'Beatles'.






Bu llawer o blant yn cystadlu yng nghystadleuthau gymnasteg yr Urdd. Da iawn i bob un, a llongyfarchiadau mawr i'r grwp a gafodd lwyddiant a fydd yn cynrychiol'r sir yn y ffeinal yn Aberystwyth.



Yn dilyn clywed helyntion Smarti cafodd y plant greu posteri ‘Sut i fod yn ddiogel ar y we’. Mae 'na bellach bosteri lliwgar yn llawn gwybodaeth ar ein waliau yn yr Uned!



Ar Ddiwrnod Diogelwch y We, cafodd blant yr Uned Dan 7 gyfle i glywed stori Smarti y Pengwin er mwyn eu hatgoffa o beth i’w wneud mewn sefyllfaoedd gwahanol wrth ddefnyddio technoleg.



# Byd Bach



Difyr darllen y pwt bach gan Mair Spencer am y cerdyn post a Mathonwy Hughes yn Y Bigwn mis diwetha’. Rwy’n derbyn Y Bigwn drwy’r post. Fe’m ganed yn Ninbych ond ers sawl blwyddyn bellach rwy’n byw ym Mrighton, ac ers sawl blwyddyn rwy’n cyfarfod a dysgwyr yma ym Mrighton bob nos Lun yn y dafarn i ymarfer siarad a sgwrsio gyda nhw. Gyda llaw, mae nhw wrth eu boddau yn treiglo ‘Brighton’! Mae nhw i gyd yn dysgu gyda rhaglen rhad ac am ddim ar y we - saysomethinginwelsh.com.

Rhyw ddwy flynedd yn ol roedde ni ar daith gerdded ar y South Downs ac roedd aelod newydd yno i’n cyfarfod ni, yn gwisgo crys t gyda draig goch enfawr arno, er mwyn gwneud yn siwr y bydde ni yn ei hadnabod hi. Roedd yn ddiwrnod braf ac wrth ddringo a cherdded a sgwrsio yn hamddenol roedd yn gyfle gwych i ddod i adnabod y ferch newydd, Sally. Megis dechrau dysgu’r iaith oedd hi, a’i breuddwyd oedd rhyw ddydd y byddai’n gallu meistroli digon ar yr iaith i allu darllen barddoniaeth, barddoniaeth a gyfansoddwyd gan berthynas iddi.

Dywedodd wrthyf bod hi’n mwynhau gwrando ar Dalwrn y Beirdd ar y radio. Wrth holi ymhellach, er mawr syndod i mi, dyma ddeall bod hi’n perthyn i neb llai na Mathonwy Hughes. Fel Mair Spencer a nifer o fobol Dinbych, mae gen i lu o atgofion melys am Mair a Mathonwy. Mae gen i gopi o lyfryn bach a gyhoeddwyd yn 2001, Cofio Mathonwy, ac yno mae llun ohoni gyda’i mham a’i brawd y tu allan i adfeilion Brynllidiart, cartref Mathonwy. Mae hi dan yr argraff ac yn ymfalchio yn y ffaith mai ei thaid a’i nhain, Robert a Mair Silyn Roberts a sefydlodd gangen Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) a bod ei nhain wedi cael yr MBE am gario mlaen gyda’r gwaith wedi i’w gwr farw. Dywedodd wrthyf hefyd mai ef, Silyn Roberts a gyflwynodd sosialaeth i Hedd Wyn, yn ol y ffilm deledu, medde hi. Dwi wedi egluro iddi hi bod hi, a Mathonwy wrth gwrs, o dras arbennig iawn.

Tybed oes unrhyw un o ddarllenwyr Y Bigwn a chopi sbar o’r llyfryn Cofio Mathonwy? Cyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd yn 2001 felly go brin, ond mae’n werth gofyn medde fi wrthyf fi fy hun achos dwi’n rhy hoff o’r llyfr i allu cyflwyno fo’n anrheg iddi!

*Carys Glaberson*

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Cawsom ddarlith arbennig iawn ar Ionawr 19eg pan ymwelodd John Clark â'r Amgueddfa am yr ail waith i sôn am ei ddiddordeb, Creu Gemwaith. Rhoddodd fraslun i ni o gefndir hanesyddol metalau, gan gyfeirio yn arbennig at yr Hen Eifftiaid a'u sgiliau rhyfeddol yn toddi ac yn trin aur i wneud gemwaith ac offer pob dydd 2330 c.c.. Ceir tystiolaeth am hyn mewn lluniau ac hieroglyffigau sydd ar waliau beddau o'r cyfnod. Yn y rhan o lun o fedd Mereruka isod, gwelir chwech dyn yn chwythu aur.



Fel y gwelwch, mae gan yr Amgueddfa Radio Celfyddyd Bop batri eiconig o'r 70au. Mae'r seinydd yn y llythyren O ac mae antena telescopig yn y cefn. Mae'n medru derbyn gorsafoedd FM a MW ac roedd yn bosib prynu'r radio mewn coch, glas neu aur.

Bu raid gohirio darlith Ifor ap Glyn ar "Darlledu yng Nghymru" tan **Mehefin 15fed**. David Crawford, Curadur yr Amgueddfa, fydd yn traddodi darlith flynyddol David Edward Hughes felly ar **Fawrth 16eg**, a 'Datblygiad y Record Gramoffôn 78RPM' fydd ei destun. Dyma'r darlithiau eraill yn y gyfres:



Sonioddd John am wahanol fetelau, a'r ffordd i raddio aur. Esboniodd fod aur pur yn 24 carat, a bod yr aur 'gwyn' sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, o bosib yn aur 18 carat gyda metel arall, fel arian, wedi ei ychwanegu ato. Dangosodd luniau o'r modrwyau, tlysau a'r clustdlysau mae wedi eu creu, a roedd hi'n braf i weld ei wraig, Sue,

**Ebrill 20fed**, "Trasiedïau Morwrol yr 'Ocean Monarch' a'r 'Lelia'", gan Tony Griffiths a Keith Mountain.
**Ebrill 27ain**, "Yr Efe - T.H. Parry-Williams a'r Isymwybod", gan Ioan Talfryn.
**Mai 18fed**, "Mwyngloddio yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru", gan Alan Jones.

Mae'r darlithiau yn cychwyn am 7.00 y.h. ac mae lluniaeth ysgafn i ddilyn.
Bydd ein Bore Coffi eleni ar **Fehefin 2ail** yn Eirianfa, 10.00-12.00, pan fyddwn yn cydweithio â Mind Dyffryn Clwyd ac Amgueddfa Dinbych. Croeso cynnes i bawb.






# Tudalen y Plant

Y BIGWN



**Beth am liwio'r llun yma o Tedi a Pero o lyfrau ac App Magi Ann gan Menter Iaith?**

Menter Iaith Sir Ddinbych

CYMRAEG #Pethau Bychain

# Pwy 'di pwy yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych? Owen Thomas



Ni fuasai CPD Dinbych yn gallu gweithredu oni bai am ei gwirfoddolwyr arbennig. Rydym fel clwb yn hynod ddiolchgar i bobl fel Meuryn Lloyd Owen Thomas, un sydd i'w weld ar y giât ar ddiwrnodau gemau'r tîm Cyntaf a'r Ail Dîm. Owen Thomas sydd yno'n gwerthu'r tocynnau raffl am bunt y strip - ac anodd iawn yw gwrthod tocyn ganddo!

Mae ymdrechion Owen yn cyfri at gannoedd o bunnoedd sy'n helpu i redeg y clwb, ac os am ryw reswm (anaml iawn) y mae'n sâl neu'n methu â bod yn bresennol, mae cyfrifon y diwrnod yn bendant yn is nag arfer.

Yn 80 mlwydd oed, mae Owen yn parhau i fod yn un o'n haelodau mwyaf dibynadwy. Ganwyd ym mhentref Maenan i'r gogledd o Lanrwst cyn ymgartrefu yma yn Ninbych a magu ei deulu yma.

Mae'n byw ar ei ben ei hun yn dilyn marwolaeth ei wraig saith mlynedd yn ôl. Roedd ganddo bump o ferched ond yn anffodus bu farw un ohonynt, Jennifer, yn ifanc yn yr 80au. Mae'r pedair merch arall o 59 mlwydd oed i 30 oed, ac mae ganddo hefyd 15 o wyrion ac wyresau, a gorwyrion a gorwyresau. Gofynnwyd iddo sut mae'n ymdopi gyda phopeth amser y Nadolig a'i ymateb oedd, "Alla i ddweud wrthoch chi, mae'n cymryd amser i gynllunio popeth rhwng yr holl anrhegion a phopeth- dydi o ddim yn hawdd!"

Yn 16 mlwydd oed, chwaraeodd i dîm Llanrwst cyn ymuno â'r fyddin. Roedd yn y Foyal Signals am flynyddoedd yn y 50au fel gyrrwr a gweithredwr diwifr, ac yn ystod ei amser yno, bu'n lwcus iawn i gyfarfod ei wraig. Helpodd yng nghlwb Pêl-droed Llanrug pan ddychwelodd yn ôl adref fel sifiliad ac fe reolodd y tîm yno am ychydig cyn symud i Ddinbych. Gweithiodd am gyfnodau yn lleol mewn llefydd fel Hufenfa Llandyrnog a'r Cigydd Cig Moch yn Ninbych cyn ymuno â'r cyngor yn clirio eira. Roedd ganddo hefyd swydd yno fel casglwr sbwriel ac roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda'i gyd-weithwyr am bedair blynedd ar hugain gan ddod yn wyneb adnabyddus iawn i drigolion Dinbych.

Clwyd Williams, Llywydd CPD Dinbych mae'n debyg oedd y person cyntaf i ennyn diddordeb Owen i helpu gyda'r clwb nôl ym 1990 fel stiward cyffredinol, yn casglu peli, helpu gyda'r rhwydi a'r citiau, ac mae wedi bod o gwmpas yn helpu ers hynny. Dave Jones oedd yn ysgrifennydd ar y clwb pan ofynnwyd i Owen i fod yn werthwr ticedi raffl. Eglurodd Owen, "Roedd Dave a minnau'n gwerthu'r tocynnau bob yn ail wythnos am gyfnod, ond pan welsom mai fi oedd yn gwerthu'r mwyaf o docynnau, dyna ni wedyn!"

Rydym ni yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych yn gwerthfawrogi dy holl ymdrechion, Owen, ac yn gobeithio y gwnei di barhau gyda dy waith caled.


CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall



**Hysbyseb Gwasg Helygain**

# CPD Dinbych

Yn dilyn y tywydd gwael dros y mis diwethaf, nid yw CPD Dinbych wedi chwarae unrhyw gêm ers eu buddugoliaeth o 6-1 yn erbyn Cyffordd Llandudno ar waelod y gynghrair.

Cafodd y gêm gartref yn erbyn Porthmadog ei gohirio yn dilyn glaw trwm ar y nos Wener a'r bore Sadwrn a achosodd i'r cae fod yn ddwrlawn. Gohiriwyd y gemau oddi cartref yn erbyn Queens Park FC a Thref Treffynnon hefyd oherwydd rhesymau tebyg. Mae Dinbych bellach yn y 6ed safle yn y gynghrair gyda mwy o gemau i'w chwarae na'r timau oddi tanyn nhw. Pe baen nhw'n ennill y gemau hynny, buasent yn gallu dychwelyd i'r 2il safle, dim ond dau bwynt oddi ar yr arweinwyr, Caernarfon.

Yr un yw hanes yr Ail Dîm a'r tîm Denbigh Development wrth i'w gemau mis Ionawr nhw i gyd gael eu gohirio oherwydd y tywydd.
Wrth i gymaint o gemau cartref gael eu gohirio, mae'r draeniau o dan y cae yn Central Park wedi cael eu harchwilio gan gamerâu dan ddaear. Gwelwyd bod rhai o'r draeniau yma wedi blocio neu wedi disgyn ac mae hyn yn cael effaith ar y cae ei hun. Bydd draeniau newydd yn gorfod cael eu gosod yn y dyfodol agos.
Mae'r clwb yn parhau i chwilio am gynorthwyydd cegin i helpu ar ddyddiau gemau i helpu i weini diodydd poeth ac oer, sglodion a fferins. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627816 neu Shon Powell ar 07768383266.


Diwrnod y Llywydd

## CLWB RYGBI DINBYCH

Sgoriodd y Tîm Cyntaf ddeg cais yn erbyn yr ymwelwyr o Fangor, gyda'r canolwr Tom Seddon yn croesi bedair gwaith. Roedd y canlyniad o 64-7 yn ymestyn mantais Dinbych ar frig Adran 2 Gogledd Cymru i 25 pwynt! Roedd gwell i ddod yn y Drenewydd, gyda Josh Morris ac Aled Evans yn cychwyn gêm i'r Tîm Cyntaf am y tro cyntaf. Sgoriodd yr wythwr Chris Forshaw ddau gais, gyda Dan O'Sullivan yn cyfrannu 19 pwynt a perfformiad arbennig gan "Seren y Gêm" Robin Williams yn sicrhau buddugoliaeth o 64-0.
Teithiodd yr Ail Dîm i Gaergybi, y tîm sydd ar frig Adran 3 Gogledd Cymru, ac er ymdrechu'n ddewr, colli o 33-10 yn erbyn eu tîm cyntaf. Yn ôl ar Gaeau Les Phillips colli fu'r hanes unwaith eto, y tro hwn yn erbyn Ail Dîm Pwllheli o 32-3.
Daeth buddugoliaeth swmpus i'r Ieuenctid yn y Gynghrair yn erbyn yr ymwelwyr o'r Drenewydd o 48-0.
Oherwydd y tywydd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad, ychydig iawn o gemau chwaraewyd yn ystod y cyfnod, ond cafwyd un achlysur arbennig iawn. Roedd Llywydd y Clwb, Tegid Phillips, wedi trefnu "Diwrnod y Llywydd" arall, a daeth nifer helaeth o gyn-chwaraewyr draw unwaith eto i gymdeithasu, mwynhau "lluniaeth ysgafn", hel atgofion a chefnogi'r Tîm Cyntaf yn erbyn Bangor.

*John Davies*

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# 'DWI'N RHYDD AR DDYDD MERCHER !!

Beth amdani ferched? Ymunwch a ni - Ferched Clwb Bowlio Dinbych - ar y Grin. Mae yma ddigon o hwyl, naws Gymreig ac elfen o gystadlu yn erbyn clybiau eraill. Byddwn yn cyfarfod yn y Parc Isa, gwaelod y dref, o gwmpas hanner awr wedi un pnawn Mercher gan orffen o gwmpas pump o'r gloch.

Er mwyn 'stwytho dipyn ar ol y gaeaf, byddwn yn y Parc ym mis Mawrth i ymarfer cyn dechrau'r tymor ym mis Ebrill. Os am ragor o wybodaeth, cysylltwch a Jean neu Mai Howells y Capten ar 815701 neu 813849.

Cynhaliwyd Noson Grempog yn Y Capel Mawr er budd Cymorth Cristnogol a chasglwyd dros £380.
mwy o luniau ar y dudalen gefn



Mair a yn aros am eu crempog



Reg Mortimer (Trysorydd) yn cael sgwrs gyda Rhys Thomas




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
Ffôn:(01745) 815141

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

BBC radio cymru
Popeth Cymraeg
Bydd y rhaglen radio
**Talwrn Y Beirdd**
Yn cael ei recordio
Yng Nghanolfan Iaith Clwyd, Dinbych
Nos Fawrth, Mawrth 27 am 7.00 y.h.
Y ddau dîm sy'n cystadlu ydy timau Hiraethog a'r Tir Mawr.
Croeso cynnes i bawb ymuno â'r gynulleidfa







Noson Cymorth Gristnogol - Hanes dalen flaenorol

















***GOLYGYDD Ebrill: Erfyl Williams, 12 Crud y Castell, Dinbych 814832 ty-williams@hotmail.co.uk***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain